# Rhaglen Gyflawn

Cyfarfod

**IS-BWYLLGOR CYNLLUNIO STRATEGOL CBC Y GOGLEDD**

Dyddiad ac Amser

**2.00 y.h., DYDD LLUN, 26AIN IONAWR, 2026**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

***Am fynediad cyhoeddus, cysylltwch â ni.***

Pwynt Cyswllt


**Jasmine Jones**

**jasminejones@gwynedd.llyw.cymru**

**01286 679667**


(Dosbarthwyd 16/01/26)

## IS-BWYLLGOR CYNLLUNIO STRATEGOL CBC Y GOGLEDD

### Aelodau a phleidlais

**Cynghorwyr**

| | |
|---|---|
| Craig ab Iago | Cyngor Gwynedd |
| Richard Jones | Cyngor Sir y Fflint |
| Chris Cater | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Alan James | Cyngor Sir Ddinbych |
| Hugh Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Nicola Roberts | Cyngor Sir Ynys Môn |

**Aelod Eryri**

| | |
|---|---|
| Edgar Wyn Owen | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |

**Swyddogion Cyswllt Cynghorau Cyfansoddol**

| | |
|---|---|
| Andrew Farrow | Cyngor Sir y Fflint |
| David Fitzsimon | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| James Harland | Cyngor Sir Conwy |
| Dewi Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Paul Mead | Cyngor Sir Ddinbych |
| Gareth Jones | Pennaeth Cynorthwyol yr Adran Cynllunio a'r Amgylchedd |
| Jonathan Cawley | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |

**Swyddogion yn Bresennol**

| | |
|---|---|
| Alwen Williams | Prif Weithredwr y Cyd-bwyllgor Corfforaethol |
| Iwan Evans | Swyddog Monitro |
| Claire Incledon | Dirprwy Swyddog Monitro |
| Dewi Morgan | Prif Swyddog Cyllid |
| Sian Pugh | Pennaeth Cynorthwyol Cyllid |

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL — 4 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod y pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 04/09/2025 fel rhai cywir.

## 5. CYFLWYNO CYTUNDEB CYFLAWNI'R CYNLLUN DATBLYGU STRATEGOL YN FFURFIOL — 9 - 16

Nodi canlyniad yr adroddiadau i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig (CBC) a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2026 a'r camau nesaf ar gyfer y Cynllun Datblygu Strategol.

## 6. AMSERLEN Y CYNLLUN DATBLYGU STRATEGOL 2026/27 A THASGAU ALLWEDDOL — 17 - 20

Nodi cynnwys yr adroddiad hwn ac y bydd y rhestr dasgau a gyflwynir yn llywio datblygiad rhaglen waith yr Is-bwyllgor a chydlynu cyfarfodydd.

**IS-BWYLLGOR CYNLLUNIO STRATEGOL CBC Y GOGLEDD**
**04/09/2025**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Nicola Roberts (Cyngor Sir Ynys Môn) (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
Craig ab Iago (Cyngor Gwynedd), Richard Jones (Cyngor Sir y Fflint), Chris Cater (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Alan James (Cyngor Sir Ddinbych) ac Edgar Wyn Owen (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri).

**Prif Swyddogion:**
Adrian Walters (Cyngor Sir y Fflint), James Harland (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Dewi Jones (Cyngor Sir Ynys Môn), Paul Mead (Cyngor Sir Ddinbych), Gareth Jones (Cyngor Gwynedd) a Keira Sweeney (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri)

**Swyddogion yn bresennol:**
Alwen Williams (Prif Weithredwr Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd), Claire Incledon (Dirprwy Swyddog Monitro), David Hole (Rheolwr Rhaglen Gweithredu Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd), Andy Roberts (Swyddog Cynllunio Datblygu Strategol Rhanbarthol), Dewi Morgan (Prif Swyddog Cyllid) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Eraill yn bresennol:**
Adam Graham (Trafnidiaeth Cymru)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:-

- Y Cynghorydd Hugh Jones (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) (Is-gadeirydd)
- Iwan Evans (Swyddog Monitro)
- Sian Pugh (Pennaeth Cynorthwyol Cyllid)

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 06 Mai 2025 fel rhai cywir.

**5. CYTUNDEB CYFLAWNI'R CYNLLUN DATBLYGU STRATEGOL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Swyddog Cynllunio Datblygu Strategol Rhanbarthol.

**PENDERFYNWYD**

**Argymell i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ei fod yn barod i gymeradwyo'r Cytundeb Cyflawni drafft yn dilyn ymgynghori a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru, yn amodol ar benderfyniad cyllid yr CDS.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Yr Is-bwyllgor Cynllunio Strategol sydd yn gyfrifol am baratoi'r Cytundeb Cyflawni drafft. Mae gan yr is-bwyllgor swyddogaethau cydlynu a chynllunio ynghylch pob cam tuag at gyflawni'r CDS.

**TRAFODAETH**

Atgoffwyd bod yr Aelodau wedi cymeradwyo cynnal ymgynghoriad cyhoeddus o Gytundeb Cyflawni'r Cynllun Datblygu Strategol ar ffurf draft am gyfnod o 6 wythnos, mewn cyfarfod anffurfiol o'r Is-bwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 27ain Mehefin 2025. Diweddarwyd bod yr ymgynghoriad cyhoeddus bellach wedi dod i ben gan gadarnhau bod yr adroddiad hwn yn cyflwyno'r adborth ac ymatebion a dderbyniwyd gan y cyhoedd a rhanddeiliaid.

Adroddwyd bod Cynllun Cyflawni'r Cynllun Datblygu Strategol wedi cael ei gymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn ei gyfarfod ar 18 Gorffennaf 2025 a bod yr ymatebion a dderbyniwyd fel rhan o'r ymgynghoriad yn cyfrannu at ddiweddariad o'r ddogfen honno.

Tynnwyd sylw bod Swyddogion wedi gwahodd nifer fawr o rhanddeiliaid a phartneriaid i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad cyhoeddus, er mwyn sicrhau proses agored. Diweddarwyd bod 16 ymateb ffurfiol wedi cael ei derbyn i'r ymgynghoriad cyhoeddus gan nifer o sefydliadau megis Awdurdodau Lleol a swyddogion penodol oddi fewn iddynt, Comisiynydd y Gymraeg, grwpiau cymunedol a Heneb. Cydnabuwyd nad oes nifer fawr o ymatebion wedi dod i law ond sicrhawyd bod y sylwadau a dderbyniwyd yn safonol iawn a bod y broses hon yn allweddol o godi ymwybyddiaeth o'r Cynllun Datblygu Strategol yn ei gyfanrwydd.

Nodwyd bod fersiwn diwygiedig o'r ymatebion a dderbyniwyd fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus wedi cael ei gylchredeg i'r Aelodau yn dilyn cyhoeddi'r Rhaglen ar gyfer y cyfarfod hwn. Eglurwyd nad oedd yr ymgynghoriad wedi dod i ben pan roedd dogfennaeth y cyfarfod hwn yn cael eu cyhoeddi ac roedd nifer o'r ymatebion wedi cyrraedd Swyddogion ar ddiwrnod olaf yr ymgynghoriad. Ystyriwyd ei fod yn bwysig bod yr aelodau yn derbyn yr holl wybodaeth a ddaeth i law ac felly rhannwyd fersiwn diwygiedig o'r ymatebion i'r Aelodau gyda chaniatâd y Cadeirydd.

Amlygwyd bod yr ymatebion yn gofyn a oes amser digonol wedi cael ei glustnodi ar gyfer ymarferion ymgynghorol. Eglurwyd bod y gofyniadau statudol o sicrhau bod ymgynghoriadau cyhoeddus yn cael eu cynnal am gyfnod o 6 wythnos yn cael ei lynu ato er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ddeddfwriaethol. Nodwyd hefyd bod gan y Cyd-bwyllgor bwerau i ymestyn cyfnodau ymgynghoriadau cyhoeddus os yw'n dymuno gwneud hynny.

Pwysleisiwyd bod nifer o ymatebion i'r ymgynghoriad yn tynnu sylw at ystyriaethau'r iaith Gymraeg. Diolchwyd iddynt am eu sylwadau gan sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn derbyn ystyriaeth barhaus o fewn gwaith y Cyd-bwyllgor.

Eglurwyd bod nifer o ymatebwyr wedi tynnu sylw at hyd y Cynllun Cyflawni, sef cyfnod o 5 mlynedd, gan ystyried os yw'r amserlen hon yn rhy heriol ac os bydd angen amser ychwanegol i gyflawni'r Cynllun Datblygu Strategol. Mewn ymateb i'r ystyriaethau hyn, cadarnhaodd y Swyddog Cynllunio Datblygu Strategol Rhanbarthol bod amserlen y Cynllun yn cyd-fynd â gofynion statudol gan bwysleisio bod swyddogion yn derbyn arweiniad a chyngor er mwyn sicrhau nad yw'r amserlen hon yn llithro.

Adroddwyd bod nifer o'r Awdurdodau Lleol a gyflwynodd sylwadau i'r ymgynghoriad cyhoeddus wedi ystyried sut mae'r Cynllun yn cael ei ariannu a pha effaith byddai hynny yn ei gael ar gyllidebau ac adnoddau'r Awdurdodau Lleol. Cydnabuwyd bod cyllido'r Cynllun yn fater i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig a'i fod yn derbyn ystyriaeth gyson. Ymhelaethwyd bod Swyddogion yn awyddus i sicrhau bod adnoddau yn cael eu defnyddio yn y dull mwyaf effeithiol er mwyn sicrhau proses cydweithredol ar draws y rhanbarth. Manylwyd bydd rhaid creu swyddi a chynnig secondiadau er mwyn sicrhau bod y Cynllun yn cael ei gyflawni gan wneud pob ymdrech i sicrhau bod y broses honno yn effeithiol a pheidio amharu'n negyddol ar adnoddau'r Awdurdodau Lleol.

## 6. MATERION AC OPSIYNAU SY'N YMWNEUD AG ARIANNU'R GWAITH O GYNHYRCHU'R CYNLLUN DATBLYGU STRATEGOL (CDS)

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Swyddog Cynllunio Datblygu Strategol Rhanbarthol.

**PENDERFYNWYD**

**Cymeradwyo'r materion cyllido a'r opsiynau a nodir yn y nodyn briffio atodol ac argymell i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ystyried pob opsiwn i gyllido'r CDS, gan gynnwys gwneud sylwadau pellach i Lywodraeth Cymru. Gofynnwyd i'r swyddogion addasu geiriad yr Adroddiad i amlygu disgwyliadau cyllidebol rhwng y Llywodraeth a'r CBC ac annog cyfraniad ariannol cyson gan y Llywodraeth er mwyn osgoi'r angen am grantiau dros dro wrth osod y gyllideb hirdymor.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Sicrhau bod yr Is-bwyllgor Cynllunio Strategol yn gwbl ymwybodol o'r materion cyllido a'r opsiynau sy'n ymwneud â'r CDS i lywio eu hargymhellion i'r Cyd-bwyllgor.

**TRAFODAETH**

Eglurwyd bod yr adroddiad yn amlygu opsiynau sy'n ymwneud ag ariannu'r gwaith o gynhyrchu'r Cynllun Datblygu Strategol, cyn paratoi cyllidebau dros tymor yr hydref. Diolchwyd i grŵp o brif swyddogion cynllunio gogledd Cymru am eu gwaith o ymchwilio i mewn i wahanol faterion ariannol ynghlwm a'r Cynllun. Nodwyd bod modd rhoi ystyriaeth bellach i'r materion ariannol sydd wedi cael ei baratoi gan Swyddogion hyd yma, gan fod yr Aelodau wedi cymeradwyo cyflwyno fersiwn drafft o'r Cynllun Datblygu Strategol i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gynharach yn ystod y cyfarfod hwn.

Atgoffwyd bod dyletswydd gyfreithiol yn cael ei roi ar y Cyd-bwyllgor Corfforedig drwy statud i ddatblygu Cynllun Datblygu Strategol yn ogystal â'i ariannu. Nodwyd bod swyddogion wedi derbyn nifer o sylwadau yn ystyried a ddylai Llywodraeth Cymru ariannu'r Cynllun a'r broses o'i sefydlu ond mewn ymateb, cadarnhawyd nad oes cynllun hirdymor wedi cael ei gyflwyno gan Lywodraeth i'r ariannu gan ei wneud yn ofynnol i'r Cyd-bwyllgor gydymffurfio â'r gofynion statudol.

Er nad oes cyllideb hir-dymor wedi cael ei glustnodi gan Lywodraeth Cymru, adroddwyd eu bod wedi adnabod cyllideb o oddeutu £400,000 sydd yn berthnasol ar gyfer holl Gyd-bwyllgorau Corfforedig Cymru. Nodwyd na fydd yr arian hwn yn cael ei rannu'n hafal rhwng y Cyd-bwyllgorau ond yn hytrach yn cael ei ddyrannu yn unol â pherfformiad y Cyd-bwyllgorau i ddatblygu eu Cynllun Cyflawni er cymeradwyaeth. Eglurwyd bod Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn awyddus i sicrhau bod datblygiadau yn cael ei wneud i Gynllun Cyflawni'r Cynllun Datblygu Strategol yn ystod y flwyddyn ariannol hon er mwyn gallu denu'r arian hwn i gyfrannu at gyllido'r Cynllun. Cysidrwyd byddai modd gwneud cais am oddeutu £100,000 o'r arian hwn yn dilyn cyfarfod 19 Medi 2025 o'r Cyd-bwyllgor Corfforedig, os yw'r aelodau yn cymeradwyo'r Cynllun Cyflawni drafft. Eglurwyd os oes

modd cadarnhau ymrwymiad ariannol ychwanegol i gyfrannu at gyllideb y Cynllun o fewn y flwyddyn ariannol gyfredol, y byddai modd ymgeisio am oddeutu £200,000 ychwanegol o'r arian grant hwn a gynigir gan Lywodraeth Cymru.

Mynegwyd balchder bod gwaith cyllidebu'r Cyd-bwyllgor wedi bod yn effeithiol iawn hyd yma ac er bod cryn dipyn o arian wedi cael ei glustnodi er mwyn cefnogi'r Cynllun, mae oddeutu £1.1miliwn o'r gyllideb ar ôl i gael ei ganfod o ffynonellau amgen. Ymhelaethwyd bydd ystyriaethau ar sut i gyfarch y bwlch ariannol hwn yn cael ei wneud wrth gysidro cyllidebau dros dymor yr hydref.

Manylwyd ar un opsiwn cyllidebol sef i gynyddu cyfraniadau gan Awdurdodau Lleol rhanbarth y gogledd o 5%. Adroddwyd byddai hyn yn gyfwerth ag oddeutu £3.27miliwn i £3.3miliwn i gyllido'r Cynllun.

Tynnwyd sylw y bydd Cynllun Datblygu Strategol a'r wybodaeth am ei ariannu yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru er cymeradwyaeth os byddai'n derbyn cefnogaeth yr is-bwyllgor hwn a'r Cyd-bwyllgor Corfforedig.

Adroddwyd yr amcangyfrifwyd bwlch o oddeutu £1.1miliwn yng nghyllideb y Cynllun Datblygu Strategol dros gyfnod o 5 mlynedd. Mynegwyd pryder y byddai hynny'n cyfateb i gynnydd o 50% yng nghyfraniadau'r Awdurdodau Lleol i'r gyllideb, gan fod hyn yn rhoi pwysau ychwanegol sylweddol ar yr Awdurdodau. Ychwanegwyd bod y cyfraniadau yn amrywio rhwng yr Awdurdodau yn unol â maint y boblogaeth a fyddai'n cael effaith niweidiol ar yr Awdurdodau hynny. Mewn ymateb i'r pryderon, pwysleisiodd Swyddog Cynllunio Datblygu Strategol Rhanbarthol mai dim ond opsiwn cyllidol fyddai hyn gan sicrhau nad oes unrhyw benderfyniad wedi cael ei wneud ar y mater hyd yma. Ymhelaethwyd bydd y Cyd-bwyllgor yn mynd drwy broses o edrych ar gyllidebau dros y misoedd nesaf ac yn obeithiol bydd cyllid yn cael ei ganfod o ffynonellau eraill, gan hefyd gydnabod bod gofyn am gyfraniad ychwanegol gan yr Awdurdodau Lleol yn opsiwn y bydd rhaid ei ystyried fel rhan o'r broses honno - gan nodi byddai hyn oddeutu £30,000 ychwanegol yn flynyddol gan y 7 Awdurdod.

Ymhellach, nododd Swyddog Cynllunio Datblygu Strategol Rhanbarthol os byddai'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn llwyddo i ddenu arian grant o oddeutu £200,000 fel y'i trafodwyd yn flaenorol, byddai hynny gyfwerth â'r cyfraniad ychwanegol a byddai'n ofynnol gan yr Awdurdodau Lleol am flwyddyn gyntaf y Cynllun. Pwysleisiodd y Prif Swyddog Cyllid y byddai hyn yn effeithiol gan hefyd nodi byddai angen edrych ar y sefyllfa yn flynyddol wrth baratoi cyllidebau. Atgoffwyd o'r angen i gyflwyno cyllidebau a'r lefi gyfraniadau ar gyfer pob Awdurdod Lleol erbyn mis Ionawr, gan sicrhau bydd swyddogion yn cydweithio â nhw er mwyn ymdrechu i osod y llefi mor isel â phosib. Sicrhawyd na fyddai cymeradwyo'r opsiynau a gyflwynwyd fel rhan o'r adroddiad i ariannu'r Cynllun yn cytundebu'r Awdurdodau Lleol i gyfrannu cyllidebau ychwanegol i'r datblygiad, gan nodi bydd trafodaethau pellach yn cael eu cynnal yn dilyn cadarnhau'r gyllideb.

Mewn ymateb i'r drafodaeth, mynegwyd pryder y byddai'r Awdurdodau Lleol yn llwyddo i gyfarch unrhyw ofynion am gyfraniadau ychwanegol, tra hefyd yn ystyried nad oes ymrwymiad cyllidol hir-dymor wedi cael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo datblygiad y Cynllun. Gofynnwyd i'r swyddogion amlygu disgwyliadau cyllidebol rhwng y Llywodraeth a'r CBC i'r dyfodol ac annog cyfraniad ariannol cyson gan y Llywodraeth er mwyn osgoi'r angen am grantiau dros dro wrth osod y gyllideb hirdymor, gan gynnig ac eilio i gryfhau'r geiriad hwn erbyn i'r ddogfen gael ei gyflwyno i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ar 19 Medi 2025.

Ystyriwyd os byddai modd gohirio penderfyniad ar ariannu'r gwaith o gynhyrchu'r Cynllun Datblygu Strategol nes i etholiadau'r Senedd gael eu cynnal yn 2026, er mwyn sicrhau bod cynlluniau Llywodraeth Cymru yn parhau gyda'r trefniadau presennol ac ystyried os byddai

modd i'r Llywodraeth gyfannu'n fwy sylweddol i'r datblygiad. Mewn ymateb i'r ystyriaethau, eglurodd y prif Weithredwr y gobeithiai bod parhau gyda'r trefniadau sydd ar waith yn denu cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru maes o law, ac yn sicrhau bod y Cyd-bwyllgor yn llwyddo i ddatblygu'r Cynllun yn amserol. Yn yr un modd, ychwanegwyd byddai'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn methu â chyrraedd targedau a disgwyliadau statudol os oes unrhyw oedi o'r math yma ar benderfyniadau.

Dechreuodd y cyfarfod am 14:00 a daeth i ben am 15:00.

---

Cadeirydd

Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

ADRODDIAD I'R IS-BWYLLGOR CYNLLUNIO STRATEGOL

26 Ionawr, 2026

| | |
|---|---|
| TEITL: | Cyflwyno Cytundeb Cyflawni'r Cynllun Datblygu Strategol yn ffurfiol |
| AWDUR: | Andy Roberts, Swyddog Cynllunio Strategol Rhanbarthol |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad i'r Is-bwyllgor Cynllunio Strategol ar ôl i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ystyried y gyllideb ar gyfer 2026/27 ac adnabod cyllid digonol i ddechrau'r Cynllun Datblygu Strategol (SDP). Bydd adroddiad ar y gyllideb yn cael ei ystyried yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor Corfforedig a gynhelir ar 23 Ionawr 2026, a bydd adroddiad ar wahân ar yr agenda honno hefyd, lle ceisir cytundeb gan y Pwyllgor hefyd i gyflwyno Cytundeb Cyflawni'r Cynllun Datblygu Strategol yn ffurfiol i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo gan Weinidogion Cymru.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Nodi canlyniad yr adroddiadau i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig (CBC) a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2026 a'r camau nesaf ar gyfer y Cynllun Datblygu Strategol.

## 3. Y RHESWM AM Y PENDERFYNIAD

3.1. Yr Is-bwyllgor Cynllunio Strategol sydd yn gyfrifol am baratoi'r Cytundeb Cyflawni drafft. Mae gan yr is-bwyllgor swyddogaethau cydlynu a chynllunio ynghylch pob cam tuag at gyflawni'r SDP.

## 4. CEFNDIR

4.1. Cafodd aelodau'r Is-bwyllgor Cynllunio Strategol eu briffio ar Gytundeb Cyflawni drafft yr SDP mewn sesiwn briffio anffurfiol i'r Aelodau a gynhaliwyd ddydd Gwener, 27 Mehefin, 2025.

Cafodd yr Aelodau eu briffio ar gynnwys y Cytundeb Cyflawni drafft at ddibenion ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghori wedi hynny, yn unol â gofynion rheoliadau'r SDP. Cynghorwyd yr aelodau hefyd ynghylch y sefyllfa gydag ariannu'r SDP a gofynnodd yr aelodau am ragor o wybodaeth am yr opsiynau sydd ar gael i ariannu'r SDP yn llawn.

4.2. Ystyriwyd y Cytundeb Cyflawni drafft a'r camau gweithdrefnol ar gyfer ymgynghori (nad yw'n statudol) gan y CBC yn ei gyfarfod ar 18 Gorffennaf, 2025 – dolen i'r adroddiad.

4.3. Dechreuodd y broses ymgynghori yn dilyn cyfarfod y CBC ar ddydd Gwener, 18 Gorffennaf gan bara tan ddydd Gwener, 29 Awst, 2025. Roedd hyn yn caniatáu cyfnod o chwe wythnos ar gyfer ymgynghori. Cyhoeddwyd y ddogfen ar wefan Uchelgais Gogledd Cymru, ynghyd â gwybodaeth gyd-destunol am bwrpas y ddogfen a sut i wneud sylwadau arni.

4.4. Adroddwyd ar ganlyniad yr ymgynghoriad yn ôl i'r Is-bwyllgor yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Medi 2025 (dolen i'r adroddiad) ynghyd â'r adroddiad manwl y gofynnwyd amdano ar y sefyllfa ariannu. Penderfynwyd argymell i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig y dylent gymeradwyo'r Cytundeb Cyflawni yn barod i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru, yn amodol ar adnabod cyllid digonol ar gyfer y Cynllun Datblygu Strategol drwy'r broses o osod cyllideb ar gyfer y Cyd-bwyllgor Corfforedig. Wrth wneud hynny, mynegodd yr Aelodau bryder penodol na ddylai hyn gael effaith sylweddol ar gyllidebau'r Awdurdod Cynllunio Lleol wrth osod cyllideb ar gyfer yr SDP, yn ychwanegol at y cyfraniad ardoll a wnaed eisoes ar gyfer yr SDP yn 2025/26.

4.5. Yna fe wnaeth y Cyd-bwyllgor Corfforedig ystyried a chymeradwyo'r argymhelliad hwn yn ei gyfarfod dilynol a gynhaliwyd ar 19 Medi 2026 (dolen i'r adroddiad).

4.6. Ers y dyddiad hwnnw, mae'r broses o osod cyllideb wedi bod yn mynd rhagddi er mwyn gosod y gyllideb ar gyfer 2026/27, gan gynnwys y cyllid sydd ei angen ym mlwyddyn 1 o Raglen Gyflawni'r SDP i ddechrau'r cynllun. Mae swyddogion wedi bod yn gweithio gyda chydweithwyr cyllid i sicrhau bod dymuniadau'r Aelodau yn cael eu hystyried yn y ffordd y mae'r CBC yn rhoi adnoddau i'r SDP ym mlwyddyn 1. Mae disgwyl i gyllideb y CBC ar gyfer 2026/27 gael ei hadrodd i'r CBC ar 23 Ionawr 2026 ar gyfer ei chymeradwyo.

4.7. Felly, mae'r broses gyda'r Cynllun Datblygu Strategol wedi'i gohirio i bob pwrpas wrth i ni aros am osod a chymeradwyo'r gyllideb, gan mai dyna'r sicrwydd roedd yr Aelodau eisiau ei gael cyn cyflwyno'r cytundeb Cyflawni yn ffurfiol. Ar ôl ystyried y gyllideb arfaethedig ar gyfer 2026/27, bydd Aelodau'r Is-bwyllgor yn gweld bod y cyllid sydd ei angen i gychwyn ar y cynllun wedi'i adnabod ar gyfer blwyddyn 1 y rhaglen, a thrwy wneud hynny, rydym yn osgoi unrhyw effaith sylweddol ar ardoll yr Awdurdodau Lleol o'r SDP. O ganlyniad i hyn, gofynnir i'r CBC hefyd gyflwyno'r Cytundeb Cyflawni yn ffurfiol i'w gymeradwyo gan Weinidogion Cymru.

## 5. YSTYRIAETHAU

5.1. Mae copi o'r adroddiad i gyfarfod y Cyd-bwyllgor Corfforedig a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2026 oedd yn gofyn am gyflwyno'r Cytundeb Cyflawni wedi'i atodi fel ***Atodiad 1*** i'r adroddiad hwn. Mae hyn yn rhoi'r rhesymeg i'r Aelodau y tu ôl i adnabod cyllid digonol ar gyfer yr SDP gan hefyd beidio effeithio'n sylweddol ar gyllidebau'r Awdurdodau Cynllunio Lleol na'r cyfraniad ardoll tuag at ariannu'r SDP. Mae'r adroddiad hefyd yn darparu dolen i adroddiad cyllideb y CBC ac yn crynhoi beth yw cyllideb yr SDP ar gyfer 2026/27, a sut y cyrhaeddwyd hynny.

5.2. Er yn hunan-eglurhaol, mae'n werth i'r Aelodau nodi'r pwyntiau allweddol a ganlyn sy'n gysylltiedig â sut mae cyllideb yr SDP wedi'i gosod:

- Amcangyfrifir mai cyfanswm cost yr SDP yw £3.276m dros y rhaglen bum mlynedd, neu £655,272 y flwyddyn. Dyma’r 'senario gwaethaf' ac mae'n llywio'r broses o osod cyllideb flynyddol ar gyfer pa adnoddau sydd eu hangen, yn ogystal â sut y gall effeithlonrwydd ac arbedion leihau'r costau hyn dros amser.
- Mae'r gyllideb arfaethedig ar gyfer blwyddyn 1 2026/27 y rhaglen wedi'i chynnig ar £597,650 ac mae'n adlewyrchu'r hyn sydd ei angen ym mlwyddyn 1 yn hytrach na chymhwyso cyfartaledd yn unig.
- Y prif elfennau gwariant yn y gyllideb yw: £253,290 i dalu am gyflogau cyfredol a recriwtio arfaethedig yn 2026/27; £292,490 sy'n darparu arian yn bennaf ar gyfer cymorth ymgynghori hanfodol ynghyd â swm i ariannu system swyddfa gefn ar gyfer yr SDP; ac yn olaf £50,960 sy'n darparu arian ar gyfer y gwahanol wasanaethau cymorth sydd eu hangen i gynorthwyo gyda chynhyrchu'r cynllun.

- Y cyfraniad cronnol at dalu'r gwariant arfaethedig o ardoll yr Awdurdodau Lleol yw £388,170. Mae hyn yn parhau i fod yn agos iawn at swm yr ardoll a ddarparwyd yng nghyllideb 2025/26 (£375,040) sy'n cynrychioli gwahaniaeth o ddim ond £13,130, neu 2.2% o'r gyllideb gwariant gyffredinol ar gyfer 2026/27.
- Ffactor lliniarol pwysig sydd wedi helpu i gyfyngu'n sylweddol ar yr effaith ar Awdurdodau Lleol yw'r cyllid wrth gefn sydd wedi'i adnabod i'w ddefnyddio yn y gyllideb (£209,480). Mae hyn wedi dod o gyfuniad o danwariant ar y gyllideb yn ystod y flwyddyn yn 2025/26, a Llywodraeth Cymru yn rhoi grant perfformiad o £200,000 i'r CBC am y cynnydd y mae wedi'i wneud. Mae'r cyfuniad o'r rhain hefyd yn gadael arian wrth gefn pellach y gellir ei ystyried fel rhan o osod y gyllideb ar gyfer blwyddyn 2 yr SDP yn 2027/28, ynghyd ag unrhyw arian pellach a allai fod ar gael i gefnogi'r SDP.

5.3. Felly, mae'r CBC wedi cyrraedd y pwynt lle, yn gyntaf, mae eisoes wedi cymeradwyo'r Cytundeb Cyflawni i'w gyflwyno i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo ac yn ail, wedi gosod cyllideb realistig ar gyfer blwyddyn 1 rhaglen yr SDP sy'n ddigonol i dalu'r costau cynhyrchu. Mae'r sefyllfa a gyrhaeddwyd gyda'r gyllideb o ran yr effaith gyfyngedig iawn ar ardoll yr Awdurdodau Lleol yn gyflawniad sylweddol, gan roi'r sicrwydd roedd yr Aelodau yn chwilio amdano, a'r potensial i ailadrodd hyn fel rhan o'r ymarfer gosod cyllideb ar gyfer 2027/28, o leiaf. Er nad yw Strategaeth Ariannol Tymor Canolig wedi'i chytuno eto ar gyfer y CBC, ystyrir mai'r sefyllfa hon yw'r gorau y gellir ei chyflawni ar gyfer y flwyddyn nesaf (a'r flwyddyn wedyn), ac felly'r sicrwydd sydd ei angen i ymrwymo i gyflwyno Cytundeb Cyflawni'r SDP yn ffurfiol i'w gymeradwyo gan Weinidogion Cymru.

## 6. CAMAU NESAF

6.1. Ar ôl cyrraedd y pwynt hwn felly, mae'r adroddiad i'r CBC (***Atodiad 1***) bellach wedi gofyn i'r pwyllgor gytuno i gyflwyno Cytundeb Cyflawni'r SDP yn ffurfiol i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo yn unol â Rheoliad 11(2) o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) 2021.

6.2. Yn amodol ar gytundeb yr Aelodau i hyn ar 23 Ionawr, bydd y Cytundeb Cyflawni yn cael ei gwblhau'n derfynol a'i gyflwyno cyn gynted â phosib. Unwaith y bydd wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru, deallir y bydd y Gweinidog yn ysgrifennu at y CBC o fewn pedair wythnos ar ôl ei dderbyn i nodi ei fod yn derbyn y Cytundeb Cyflawni, a bydd hynny'n nodi dechrau'r gwaith ar y cynllun yn ffurfiol. Os oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw ymholiadau ynglŷn â chynnwys y Cytundeb Cyflawni, mae mwy na digon o amser i fynd i'r afael â'r rhain, sicrhau swm llawn y grant perfformiad, a chynnal cynnydd yn erbyn amserlen yr SDP. Mae pwerau dirprwyo wedi cael eu darparu i'r Prif Weithredwr i wneud mân newidiadau golygyddol mewn ymgynghoriad â Chadeirydd yr is-bwyllgor hwn.

## 7. GOBLYGIADAU ARIANNOL

7.1. Bydd costau'n cael eu tynnu o gyllideb arfaethedig CBC y Gogledd ar gyfer 2026/27 gyda'r gefnogaeth angenrheidiol gan dimau Cyfreithiol a Chyllid y CBC. Bydd y CBC hefyd yn ceisio sicrhau cymorth ariannol pellach gan Lywodraeth Cymru wrth i'r SDP symud ymlaen, ac adnabod effeithlonrwydd ac arbedion posibl wrth osod cyllidebau blynyddol yn y dyfodol.

## 8. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

8.1. Mae gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig ddyletswydd statudol i baratoi Cynllun Datblygu Strategol o dan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (fel y'i diwygiwyd). Mae'r gofynion a'r camau

penodol i gynhyrchu Cynllun Datblygu Strategol wedi'u nodi yn Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) 2021.

---

ATODIADAU:

| | |
|---|---|
| Atodiad 1: | Adroddiad i'r CBC yn ceisio Cymeradwyaeth Ffurfiol i gyflwyno Cytundeb Cyflawni'r SDP |

---

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

"Dim sylwadau i'w hychwanegu mewn perthynas â phriodoldeb."

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

"Gallaf gadarnhau cywirdeb y wybodaeth sy'n ymwneud â Chyllideb 2026/27 sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad hwn. Credaf fod yr adroddiad hwn yn adlewyrchiad cywir o'r sefyllfa bresennol o ran y Cynllun Datblygu Strategol."

Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG

23 Ionawr 2026

| | |
|---|---|
| TEITL: | Cyflwyno Cytundeb Cyflawni'r Cynllun Datblygu Strategol yn ffurfiol |
| AWDUR: | Andy Roberts, Swyddog Cynllunio Strategol Rhanbarthol |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn ceisio cytundeb y Cyd-bwyllgor Corfforedig (CBC) i gyflwyno'r Cytundeb Cyflawni ar gyfer Cynllun Datblygu Strategol Gogledd Cymru (SDP) yn ffurfiol i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo gan Weinidogion Cymru. Mae hyn ar ôl i'r CBC osod cyllideb briodol ar gyfer 2026/27, i dalu'r costau o gynhyrchu'r SDP ym mlwyddyn gyntaf yr amserlen a dechrau'r cynllun.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Cytuno i gyflwyno Cytundeb Cyflawni'r SDP yn ffurfiol i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo yn unol â Rheoliad 11(2) o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) 2021.

2.2. Rhoi awdurdod dirprwyedig i Brif Weithredwr Uchelgais Gogledd Cymru mewn ymgynghoriad â Chadeirydd yr is-bwyllgor Cynllunio Strategol i wneud unrhyw fân ddiwygiadau golygyddol neu fformatio i'r Cytundeb Cyflawni i'w baratoi i'w gyflwyno'n ffurfiol i Lywodraeth Cymru.

## 3. Y RHESWM AM Y PENDERFYNIAD

3.1. Mae'r cyfrifoldeb i gymeradwyo a chyflwyno'r Cytundeb Cyflawni drafft i'w gymeradwyo gan Weinidogion Cymru yn gyfrifoldeb i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig.

## 4. CEFNDIR

4.1. Fe wnaeth aelodau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ystyried Cytundeb Cyflawni drafft yr SDP yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ddydd Gwener 19 Medi 2025. Yn dilyn adborth o ymgynghoriad ar y Cytundeb Cyflawni, cytunodd y Pwyllgor yn y cyfarfod hwnnw i gymeradwyo'r Cytundeb Cyflawni yn barod i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru, yn amodol ar wneud penderfyniad ynghylch y cyllid ar gyfer y Cynllun Datblygu Strategol. Roedd y penderfyniad hwn hefyd yn ystyried newidiadau i'r Cytundeb Cyflawni fel y manylwyd yn yr Adroddiad Ymgynghori oedd wedi'i atodi i'r adroddiad blaen i'r cyfarfod hwnnw ac mae hefyd yn cynnwys diwygiad gan Aelod a wnaed ac y cytunwyd arno yn y cyfarfod hwnnw, mewn perthynas â chydymffurfiaeth lawn â Safonau'r Gymraeg.


Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

4.2. Fe wnaeth yr Aelodau hefyd ystyried yr adborth a gafwyd o'r ystyriaeth a roddwyd i'r un materion gan yr Is-bwyllgor Cynllunio Strategol a gyfarfu cyn cyfarfod y CBC ar 19 Medi. Un prif bryder a fynegwyd gan yr is-bwyllgor oedd yr effaith y byddai ariannu'r SDP yn ei gael ar gyllidebau presennol yr Awdurdodau Lleol a'r ardoll a delir gan bob awdurdod i ariannu'r CBC. Nodwyd yn yr adroddiad i'r Pwyllgor ar 19 Medi bod y rhain yn ystyriaethau ar gyfer y broses o osod cyllideb y CBC yn gyffredinol, ac nid cyllideb ar gyfer yr SDP yn unig.

4.3. Ers y dyddiad hwnnw, mae'r broses o osod cyllideb y CBC wedi bod yn mynd rhagddi er mwyn gosod y gyllideb gyffredinol ar gyfer 2026/27, gan gynnwys y cyllid sydd ei angen ym mlwyddyn 1 o Raglen Gyflawni'r SDP i ddechrau'r cynllun. Mae swyddogion wedi bod yn gweithio gyda chydweithwyr cyllid i sicrhau bod dymuniadau'r Aelod mewn perthynas â phwysau cyllidebol yn cael eu hystyried yn y ffordd y mae'r SDP yn cael ei adnoddau. Mae disgwyl i gyllideb y CBC ar gyfer 2026/27 gael ei hadrodd i'r CBC ar 23 Ionawr 2026 ar gyfer ei chymeradwyo.

4.4. Felly, mae'r broses gyda'r Cynllun Datblygu Strategol wedi'i gohirio ers mis Medi i bob pwrpas, wrth i ni aros am osod a chymeradwyo'r gyllideb, gan mai dyna'r sicrwydd roedd yr Aelodau eisiau ei gael cyn cyflwyno'r cytundeb Cyflawni yn ffurfiol. O'r adroddiad sy'n cyflwyno'r gyllideb i'r cyfarfod hwn i'w gymeradwyo, bydd yr Aelodau'n gweld bod y cyllid sydd ei angen i gychwyn y cynllun wedi'i adnabod, a thrwy wneud hynny, mae hyn wedi osgoi unrhyw effaith ar ardoll yr Awdurdodau Lleol o'r SDP. Caiff hyn ei egluro'n fanylach yn yr adran ganlynol.

## 5. YSTYRIAETHAU

5.1. Fel y gŵyr yr Aelodau, amcangyfrifwyd bod y gost o gynhyrchu'r SDP yn £3.276m dros y broses bum mlynedd, neu £655,272 y flwyddyn ar gyfartaledd. Er bod hyn yn cael ei ystyried yn amcangyfrif realistig, dylid hefyd edrych arno fel y senario gwaethaf, sy'n gadael rhywfaint o le ym mhob cylch o osod y gyllideb flynyddol i geisio cyflawni effeithlonrwydd ac arbedion. Dyma gyfanswm y costau i'r CBC, a'r CBC sydd â'r ddyletswydd o gynhyrchu'r SDP ac ariannu'r broses honno. Mae'r Aelodau wedi ystyried adroddiad penodol o'r blaen ar ariannu'r SDP (DOLEN) oedd yn cymharu'r gyllideb a osodwyd ar gyfer 2025/26 gyda'r cyllid a fyddai ei angen i dalu'r costau hyn, a olygai yn ei hanfod bod angen i gyllideb 2025/26 gynyddu tua 50%.

5.2. Ar ôl ystyried y gwariant refeniw sydd ei angen ar gyfer y flwyddyn gyntaf o gynhyrchu'r SDP ar ôl i Lywodraeth Cymru gymeradwyo'r Cytundeb Cyflawni, cynigiwyd cyllideb ar gyfer yr SDP ar gyfer 2026/27 sy'n dod i gyfanswm o £597,650. Darperir y dadansoddiad o hwn yn adroddiad y gyllideb sy'n ymddangos yn gynharach ar yr agenda hwn sy'n manylu ar y gwariant sydd ei angen a'r ffynonellau incwm a fydd yn cael eu defnyddio i dalu'r gwariant hwnnw (gweler y daflen crynodeb o'r gyllideb yn ***Atodiad 1***).

5.3. Mae prif elfennau'r gyllideb wedi'u llunio gan ofynion gwariant o: £253,290 i dalu cyflogau cyfredol a recriwtio arfaethedig yn ystod y flwyddyn; £292,490 sy'n darparu arian yn bennaf ar gyfer cymorth ymgynghori hanfodol ynghyd â swm i ariannu system swyddfa gefn ar gyfer yr SDP; ac yn olaf £50,960 sy'n darparu arian ar gyfer y gwahanol wasanaethau cymorth sydd eu hangen i gynorthwyo gyda chynhyrchu'r cynllun. Mae cyfanswm y gwariant o £597,650 yn is na'r costau cyfartalog blynyddol uchod ac mae'n enghraifft gynnar o gyllidebu ar gyfer y costau y mae angen i ni eu gwario, yn hytrach na dim ond cronni cyllideb. Er y gall y costau amrywio dros amser, bydd y rhain yn cael eu pennu ym mhob proses gosod cyllideb flynyddol, wedi'u harwain gan yr amcangyfrifon cost cyffredinol, y cam rydym wedi'i gyrraedd gyda'r cynllun, a ffynonellau incwm posibl eraill sydd ar gael ar yr adeg honno.

5.4. Un prif bryder i'r Aelodau pan gymeradwywyd y Cytundeb Cyflawni ym mis Medi, oedd y gallu i osod cyllideb briodol ar gyfer yr SDP, heb i hyn gael effaith sylweddol ar Gyllidebau'r Awdurdodau Lleol. Fe wnaeth Aelodau'r Is-bwyllgor Cynllunio Strategol ategu'r pryder hwn hefyd. Mae dau beth i'r Aelodau eu nodi o'r crynodeb cyllideb yn atodiad 1 mewn perthynas â hyn. Yn gyntaf, y cyfraniad cronnol at dalu'r gwariant arfaethedig o ardoll yr Awdurdodau Lleol yw £388,170. Mae hyn yn parhau i fod yn agos iawn at y swm ardoll sy'n ofynnol yng nghyllideb 2025/26 (£375,040) sy'n cynrychioli gwahaniaeth o ddim ond £13,130, neu 2.2% o'r gyllideb gwariant gyffredinol ar gyfer 2026/27.

5.5. Ffactor lliniarol pwysig sydd wedi helpu i gyfyngu'n sylweddol ar yr effaith ar Awdurdodau Lleol yw'r cyllid wrth gefn sydd wedi'i adnabod i'w ddefnyddio yn y gyllideb (£209,480). Mae hyn wedi dod o gyfuniad o danwariant ar y gyllideb yn ystod y flwyddyn yn 2025/26, a Llywodraeth Cymru yn rhoi grant perfformiad o £200,000 i'r CBC am y cynnydd y mae wedi'i wneud. Mae'r cyfuniad o'r rhain hefyd yn gadael arian wrth gefn pellach y gellir ei ystyried fel rhan o osod y gyllideb ar gyfer blwyddyn 2 yr SDP yn 2027/28.

5.6. Felly, mae'r CBC wedi cyrraedd y pwynt lle, yn gyntaf, mae eisoes wedi cymeradwyo'r Cytundeb Cyflawni i'w gyflwyno i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo ac yn ail, wedi gosod cyllideb realistig ar gyfer blwyddyn 1 rhaglen yr SDP sy'n ddigonol i dalu'r costau cynhyrchu. Mae'r sefyllfa a gyrhaeddwyd gyda'r gyllideb o ran yr effaith gyfyngedig iawn ar ardoll yr Awdurdodau Lleol yn gyflawniad sylweddol, gan roi'r sicrwydd roedd yr Aelodau yn chwilio amdano, a'r potensial i ailadrodd hyn fel rhan o'r ymarfer gosod cyllideb ar gyfer 2027/28, o leiaf. Er nad yw Strategaeth Ariannol Tymor Canolig wedi'i chytuno eto ar gyfer y CBC, ystyrir mai'r sefyllfa hon yw'r gorau y gellir ei chyflawni ar gyfer y flwyddyn nesaf (a'r flwyddyn wedyn), ac felly'r sicrwydd sydd ei angen i ymrwymo i gyflwyno Cytundeb Cyflawni'r SDP yn ffurfiol i'w gymeradwyo gan Weinidogion Cymru.

## 6. CAMAU NESAF

6.1. Felly, gofynnir i'r Aelodau gytuno i gyflwyno Cytundeb Cyflawni'r SDP yn ffurfiol i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo yn unol â Rheoliad 11(2) o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) 2021.

6.2. Gan gymryd bod yr Aelodau'n cytuno, bydd y Cytundeb Cyflawni yn cael ei gwblhau'n derfynol ar ôl y cyfarfod hwn a'i gyflwyno cyn gynted â phosibl. Unwaith y bydd wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru, deallir y bydd y Gweinidog yn ysgrifennu at y CBC o fewn pedair wythnos ar ôl ei dderbyn i nodi ei fod yn derbyn y Cytundeb Cyflawni, a bydd hynny'n nodi dechrau'r gwaith ar y cynllun yn ffurfiol. Os oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw ymholiadau ynglŷn â chynnwys y Cytundeb Cyflawni, mae mwy na digon o amser i fynd i'r afael â'r rhain, sicrhau swm llawn y grant perfformiad, a chynnal cynnydd yn erbyn amserlen yr SDP.

## 7. GOBLYGIADAU ARIANNOL

7.1. Bydd costau'n cael eu tynnu o gyllideb arfaethedig CBC y Gogledd ar gyfer 2026/27 gyda'r gefnogaeth angenrheidiol gan dimau Cyfreithiol a Chyllid y CBC. Bydd y CBC hefyd yn ceisio sicrhau cymorth ariannol pellach gan Lywodraeth Cymru wrth i'r SDP symud ymlaen, ac adnabod effeithlonrwydd ac arbedion posibl wrth osod cyllidebau blynyddol yn y dyfodol.

8. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

8.1. Mae gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig ddyletswydd statudol i baratoi Cynllun Datblygu Strategol o dan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (fel y'i diwygiwyd). Mae'r gofynion a'r camau penodol i gynhyrchu Cynllun Datblygu Strategol wedi'u nodi yn Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) 2021.

---

ATODIADAU:

Atodiad 1: Cyllideb Gryno Uchelgais Gogledd Cymru 2026/27

---

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

"Mae yna gyfres o benderfyniadau allweddol sy'n arwain yn y pen draw at fabwysiadu Cynllun Datblygu Strategol. Er ei bod yn ddogfen dechnegol mewn sawl ffordd, mae cymeradwyo'r Cytundeb Cyflenwi i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn benderfyniad arwyddocaol. Mae'n nodi'r broses arfaethedig ac ymrwymiad y CBC i gyflawni'r cynllun. Mae'r argymhelliad yn tynnu sylw at y mater o ariannu'r broses Gynllun a'r angen i'r CBC sicrhau datrys y mater hwn fel rhagamod ar gyfer cyflwyno'r Cytundeb i Lywodraeth Cymru”.

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

“Mae cyflwyno’r Cytundeb Cyflawni yn gam allweddol wrth ddatblygu’r Cynllun Datblygu Strategol.

Gallaf gadarnhau bod yr wybodaeth ariannol sydd wedi’i chynnwys yn yr adroddiad hwn yn gyson â’r gyllideb arfaethedig ar gyfer 2026/27. Yn amodol ar gymeradwyaeth y gyllideb gan y Cyd Bwyllgor Corfforedig, nid oes gennyf unrhyw wrthwynebiad i'r penderfyniadau a geisir.”

# ADRODDIAD I'R IS-BWYLLGOR CYNLLUNIO STRATEGOL

26 Ionawr 2026

| | |
|---|---|
| TEITL: | Amserlen y Cynllun Datblygu Strategol 2026/27 a thasgau allweddol |
| AWDUR: | Andy Roberts, Swyddog Cynllunio Strategol Rhanbarthol |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn dynodi'r tasgau sy'n rhan o flwyddyn gyntaf rhaglen y Cynllun Datblygu Strategol (SDP), y bydd angen eu blaenoriaethu yn dilyn cymeradwyo Cytundeb Cyflawni'r SDP gan Weinidogion. Bydd hyn hefyd yn sail i raglen waith yr Is-bwyllgor am y flwyddyn.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Nodi cynnwys yr adroddiad hwn ac y bydd y rhestr dasgau a gyflwynir yn llywio datblygiad rhaglen waith yr Is-bwyllgor a chydlynu cyfarfodydd.

## 3. Y RHESWM AM Y PENDERFYNIAD

3.1. Yr Is-bwyllgor Cynllunio Strategol sy'n gyfrifol am weithredu Cytundeb Cyflawni'r SDP. Mae gan yr is-bwyllgor swyddogaethau cydlynu a chynllunio ynghylch pob cam tuag at gyflawni'r SDP.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Ar ôl cyflwyno Cytundeb Cyflawni'r SDP i'w gymeradwyo'n ffurfiol gan Weinidogion Cymru a derbyn eu cymeradwyaeth, bydd rhaglen yr SDP wedi dechrau, ac mae'n briodol edrych ymlaen at y tasgau allweddol sy'n ffurfio rhaglen ac amserlen y cytundeb Cyflawni ar gyfer blwyddyn 1.

4.2. Mae'r cytundeb Cyflawni yn cynnwys amserlen gryno sydd wedyn hefyd yn cael ei rhannu'n dasgau allweddol (dolen i'r fersiwn gyfredol o'r Cytundeb Cyflawni). Mae'r rhain i'w gweld yn atodiadau pedwar a phump yn y drefn honno, ond at ddibenion canolbwyntio ar y tasgau sydd i'w blaenoriaethu'n syth, mae'r tabl isod yn cyflwyno amserlen o'r gwaith sy'n ofynnol ym mlwyddyn 1, a fydd hefyd yn ysgogi'r angen i drafod cynnydd a chanlyniadau gyda'r is-bwyllgor yn ystod y flwyddyn. Bydd hyn yn ei dro yn cael ei ddatblygu yn rhaglen waith ffurfiol ar gyfer yr is-bwyllgor a fydd yn llywio'r gwaith o amserlennu cyfarfodydd ar gyfer 2026/27 a fydd yn digwydd yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

Amserlen Cynllun Datblygu Strategol 2026-27 a Rhaglen Waith yr Is-bwyllgor Cynllunio Strategol

| Tasg | Disgrifiad | Amseru | Sylw/canlyniad |
|---|---|---|---|
| 1. Paratoi sylfaen dystiolaeth – camau 1 a 2 | Dogfen gwmpasu wedi'i pharatoi i amlinellu camau allweddol wrth baratoi'r sylfaen dystiolaeth ac i weithredu fel briff i benodi cymorth ymgynghori | Ionawr - Ebrill 2026 | Paratoad tystiolaeth wedi'i baratoi. Crynodeb chwe cham – ARUP wedi'i benodi ar gyfer camau 1 a 2 |
| 2. Cyflwyno'r Cytundeb Cyflawni i'w gymeradwyo gan Weinidogion | Gofyniad ffurfiol olaf cyn cychwyn ar broses gynhyrchu'r CDLl | Ionawr 2026 | Ar ôl ei chymeradwyo, bydd amserlen y Cytundeb Cyflawni yn cael ei defnyddio at ddibenion monitro gan yr Is-bwyllgor Cynllunio Strategol |
| 3. Y Cytundeb Cyflawni wedi'i gymeradwyo a chychwyn ar yr SDP | Dylai'r CBC dderbyn cymeradwyaeth y Gweinidogion trwy lythyr bedair wythnos o'r dyddiad cyflwyno | Ionawr - Chwefror 2026 | Llythyr gweinidogol yn nodi cychwyn ffurfiol yr SDP |
| 4. Recriwtio i'r tîm SDP | I ddechrau, creu hyd at ddwy rôl uwch/prif gynllunydd i gefnogi cynhyrchu'r SDP | Ionawr - Mehefin 2026 | Mae hyn wedi'i gyllidebu yng nghyllideb 2026/27 |
| 5. Adroddiad Cwmpasu Asesiad Effaith Integredig (AEI) | Cam cynnar hanfodol yn y broses gan fod yr AEI wedyn yn berthnasol trwy gydol y broses o wneud cynllun ar sail ailadroddus | Ebrill - Mehefin 2026 | Mae swyddogion wedi cydweithio â CBC Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i rannu fframwaith cyffredin ar gyfer y gwaith hwn |
| 6. Ymgynghoriad yn canolbwyntio ar gwmpasu'r AEI | Pan fydd yr adroddiad cwmpasu AEI wedi'i ddrafftio, mae'n ofynnol i'r CBC ymgynghori ag ymgynghoreion penodol ar hyn | Mehefin – Gorffennaf 2026 | Diwygio'r Adroddiad Cwmpasu yn dibynnu ar adborth perthnasol |
| 7. Cynhyrchu Adroddiad Prif Faterion | Dyma gam tri yn y ddogfen gwmpasu sylfaen dystiolaeth y cyfeirir ati yn 1 uchod, ac mae'n cychwyn y broses o nodi'r materion a'r tueddiadau perthnasol o asesiad o sylfeini tystiolaeth Awdurdodau Cynllunio Lleol unigol sy'n berthnasol mewn cyd-destun rhanbarthol | Mehefin - Gorffennaf 2026 | Dogfen allweddol i lywio datblygiad strategaeth y cynllun a themâu polisi |
| 8. Datblygu Materion, Gweledigaeth ac | Mae hwn yn gyfle pwysig i Aelodau gyfrannu at | Ebrill - Mai 2026 ar gyfer | Opsiynau ar gyfer gweithdai wedi'u hwyluso gan |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Amcanion gan gynnwys gweithdai Aelodau a rhanddeiliaid | ddatblygu'r ffocws strategol ar gyfer y cynllun trwy gynorthwyo i ddiffinio'r weledigaeth a'r amcanion strategol | Comisiwn Dylunio Cymru<br>Mehefin - Gorffennaf 2026 ar gyfer Arup wedi'i hwyluso | Gomisiwn Dylunio Cymru ac yna Arup. Yn defnyddio'r crynodeb o'r dystiolaeth yn yr adroddiad prif faterion. |
| 9. Nodi ac asesu opsiynau twf a gofodol | Camau 4 a 5 wrth ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr SDP. Bydd angen ystyried opsiynau CDLl a thwf tymor hwy ar gyfer y rhanbarth, yn ogystal â strategaeth aneddiadau. | Mehefin - Hydref 2026 | Pwysig wrth nodi'r strategaeth a ffefrir |
| 10. Datblygu methodoleg safleoedd arfaethedig | Mae'r rheoliadau SDP yn ei gwneud yn ofynnol i'r CBC wneud 'galwad am safleoedd' sy'n caniatáu i'r rhai sydd â buddiant mewn tir gyflwyno eu safleoedd i'w hystyried | Awst - Medi 2026 | Bydd y fethodoleg yn diffinio'r paramedrau ar gyfer adnabod safleoedd ar y raddfa strategol, e.e. o leiaf 500 o gartrefi. |
| 11. Galwad ffurfiol am safleoedd arfaethedig (8 wythnos) a chreu cofrestr o safleoedd | Mae rheoliadau'r SDP yn nodi bod yn rhaid i'r alwad am safleoedd fod yn agored am gyfnod rhesymol ac mae dau fis wedi'i ganiatáu yn amserlen y SDP. | Medi - Hydref 2026 | Creu cofrestr o safleoedd a'i chyhoeddi ar wefan y CBC cyn gynted â phosib ar ôl ymgynghori |
| 12. Paratoi Strategaeth a Ffefrir y SDP | Mae'r dilyniant uchod o waith yn arwain at baratoi Strategaeth a Ffefrir y SDP | Awst 2026 - Medi 2027 | Mae'r tasgau uchod yn bwydo i'r broses o baratoi'r Strategaeth a Ffefrir a fydd yn rhedeg i flwyddyn 2 rhaglen gynhyrchu'r cynllun |

4.3. Bydd swyddogion yn ehangu ar y tasgau uchod wrth gyflwyno'r adroddiad i'r is-bwyllgor yn y cyfarfod a bydd adborth a chwestiynau Aelodau yn y cyfarfod yn helpu i fireinio'r rhaglen waith ar gyfer yr SDP ac ar gyfer yr is-bwyllgor dros y flwyddyn sydd i ddod.

4.4. Er bod yr holl dasgau uchod yn bwysig, mae'n werth tynnu sylw at arwyddocâd sawl un gan gynnwys datblygu gweledigaeth ac amcanion strategol ar gyfer yr SDP, galwad am safleoedd strategol arfaethedig, a datblygu opsiynau twf a gofodol i lywio paratoi'r Strategaeth a Ffefrir yn ddiweddarach yn 2027.

## 5. CAMAU NESAF

5.1. Gofynnir i'r Aelodau nodi'r amserlen waith sydd ar ddod ar gyfer yr SDP a oedd hefyd yn nodi'r ystyriaethau y bydd ar yr is-bwyllgor angen eu rhoi i ddatblygu'r cynllun, yn enwedig rhai o'r allbynnau allweddol o'r gwaith a amlygir uchod.

## 6. GOBLYGIADAU ARIANNOL

6.1. Bydd y costau'n cael eu tynnu o gyllidebau presennol CBC y Gogledd lle gwnaed darpariaeth i gefnogi'r gwaith hwn, gyda'r gefnogaeth angenrheidiol gan dimau Cyfreithiol a Chyllid y CBC. Bydd y CBC hefyd yn ceisio sicrhau pob cyfle am ragor o gymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru.

## 7. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

7.1. Mae gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig ddyletswydd statudol i baratoi Cynllun Datblygu Strategol o dan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (fel y'i diwygiwyd). Mae'r gofynion a'r camau penodol i gynhyrchu Cynllun Datblygu Strategol wedi'u nodi yn Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) 2021.

---

ATODIADAU:

Dim

---

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. **Swyddog Monitro:**

“Dim sylwadau i'w hychwanegu mewn perthynas â phriodoldeb.”

ii. **Swyddog Cyllid Statudol:**

“Mae'r costau disgwyliedig yn 2026/27 wedi'u cynnwys yn y gyllideb. Nid oes gennyf sylwadau pellach o ran priodoldeb ariannol.”